

HYSBYSIAD O ETHOLIAD

ETHOL COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU AR GYFER

ARDAL HEDDLU GOGLEDD CYMRU

DYDD IAU, 2 MAI 2024

- Cynhelir etholiad Comisiynydd Heddlu a Throseddau ar gyfer ardal Heddlu Gogledd Cymru.
- Rhaid cyflwyno Papurau Enwebu drwy apwyntiad wedi'i drefnu ymlaen llaw i Swyddog Canlyniadau'r Ardal Heddlu yn Neuadd y Dref, Wrecsam LL11 1AY rhwng **10am a 4pm** ar unrhyw ddiwrnod gwaith (dydd Llun i ddydd Gwener) ar ôl dyddiad yr hysbysiad hwn, ond erbyn **4pm ddydd Gwener, 5 Ebrill 2024** fan bellaf.
- Mae papurau enwebu i'w cael yn y lleoliad ac yn ystod yr amseroedd a nodir uchod. Bydd Swyddog Canlyniadau'r Ardal Heddlu yn paratoi papur enwebu i'w lofnodi ar gais unrhyw etholwr.
- Gellir talu'r ernes ar gyfer pob ymgeisydd, sef swm o bum mil o bunnoedd (£5,000.00), i **Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu erbyn 4pm ddydd Gwener, 5 Ebrill 2024**, drwy drosglwyddiad banc uniongyrchol, drafft banc (bancau sy'n weithredol yn y Deyrnas Unedig yn unig) neu ar ffurf arian parod (punnoedd Prydeinig yn unig).
- Os bydd mwy nag un ymgeisydd, cynhelir y bleidlais **ddydd Iau, 2 Mai 2024**.
- Rhaid i geisiadau i ychwanegu enw at y Gofrestr Etholwyr er mwyn pleidleisio yn yr etholiad hwn gyrraedd y Swyddfa Gofrestru Etholiadol isod erbyn **dydd Mawrth, 16 Ebrill 2024**. Gellir gwneud ceisiadau ar lein yn www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio
- Dylai etholwyr a'u dirprwyon nodi bod rhaid i unrhyw gais am bleidlais bost newydd, neu gais i newid neu ganslo pleidlais bost, gyrraedd y Swyddfa Gofrestru Etholiadol berthnasol isod erbyn **5pm ddydd Mercher, 17 Ebrill 2024**. Mae hyn yn cynnwys etholwyr neu ddirprwyon sy'n dymuno newid eu trefniadau presennol yn barhaol.
- Rhaid i unrhyw gais i benodi dirprwy gyrraedd y Swyddfa Gofrestru Etholiadol berthnasol isod erbyn **5pm ddydd Mercher, 24 Ebrill 2024**.
- Rhaid** i geisiadau am Dystysgrif Awdurdod Pleidleiswyr neu Ddogfen Etholwr Anhysbys sy'n ddilys ar gyfer yr etholiad hwn gyrraedd y **Swyddog Cofrestru Etholiadol** (fel y dangosir isod) erbyn **5pm ar ddydd Mercher, 24 Ebrill 2024**. Gellir gwneud ceisiadau am Dystysgrif Awdurdod Pleidleiswyr ar-lein www.gov.uk/ceisio-am-lun-id-tystysgrif-awdurdod-pleidleiswyr.
- Mae'n rhaid i geisiadau i bleidleisio drwy ddirprwy mewn argyfwng yn yr etholiad hwn ar sail anallu corfforol neu am resymau gwaith / gwasanaeth gyrraedd y **Swyddog Cofrestru Etholiadol** (fel y dangosir isod) erbyn **5pm ddydd Iau, 2 Mai 2024**. Mae'n rhaid bod yr analluedd corfforol wedi digwydd **ar ôl 5pm ddydd Mercher, 24 Ebrill 2024**. I wneud cais ar sail gwaith / gwasanaeth mae'n rhaid bod y person wedi dod yn ymwybodol na all fynd i'r orsaf bleidleisio'n bersonol **ar ôl 5pm ddydd Mercher, 24 Ebrill 2024**.

Swyddfa Gofrestru Etholiadol Sir neu Fwrdeistref Sirol		
Conwy	Bodlondeb, Conwy. LL32 8DU	01492 575570
Sir Ddinbych	Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun. LL15 1YN	01824 706000
Sir y Fflint	Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. CH7 6NR	01352 702300
Gwynedd	Swyddfeydd y Sir, Caernarfon. LL55 1SH	01286 679623
Ynys Môn	Swyddfeydd y Sir, Llangejni. LL77 7TW	01248 752519
Wrecsam	Neuadd y Dref, Wrecsam. LL11 1AY	01978 292020

Dyddiedig Dydd Llun, 25 Mawrth 2024

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan
Ian Bancroft, Swyddog Canlyniadau'r Ardal yr Heddlu (ardal Gogledd Cymru)
Neuadd y Dref, Wrecsam, LL11 1AY / The Guildhall, Wrexham, LL11 1AY